OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1061 (Cy. 101)

# TRAFFIG FYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Trefdraeth, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym* | *13 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[(1)] a phob pŵer galluogi arall[(2)], yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Ebrill 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Trefdraeth, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” *(“exempted vehicle”)* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:30 o'r gloch ar 13 Ebrill 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” *(“the length of the trunk road”)* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yn Nhrefdraeth yn Sir Benfro sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd ag Upper West Street hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Ebrill 2014

***R Morgan***
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.